| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **19 Mehefin 2014** |
| **TEITL YR EITEM** | **Arholiadau TGAU Saesneg – Ionawr 2014** |
| **AELOD CABINET** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **AWDUR** | **Dewi R Jones, Pennaeth Addysg** |

.**Cefndir**

Yn dilyn eich cyfarfod paratoi ar gyfer y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, gofynnwyd i mi baratoi adroddiad ar eich cyfer ar yr anawsterau a brofwyd gyda'r arholiadau TGAU Saesneg ym mis Ionawr a'r tanberfformio a welwyd yn genedlaethol ac yn lleol yn erbyn yr hyn a ddisgwylid.

Gofynnwyd yn benodol i mi fanylu ar yr hyn a ddigwyddodd yn sirol, fy asesiad o'r rhesymau dros hynny ac yna arweiniad/sylwadau ar yr hyn a ragwelir ar gyfer canlyniadau Haf 2014.

**Sylwadau ac ymateb**

Mae'r dadansoddiad isod o'r sefyllfa yn ysgolion Gwynedd yn amlygu'r problemau welwyd gydag arholiad TGAU Saesneg 2014 gyda chanran uchel o ddysgwyr yn derbyn dyfarniadau un neu fwy o raddau o dan eu rhagfynegiad o gyrhaeddiad. Roedd 413 o ddysgwyr B11 o leiaf ddwy radd o dan eu rhagfynegiad [a 350 un radd yn is] – ffigyrau sylweddol uwch na'r hyn welir ar gyfer arholiadau Saesneg Llên [gafodd eu dysgu gan yr un tim o athrawon] a Chymraeg Iaith. Mae'n bwysig hefyd bod yr amryfuseddau yn rhychwantu'r ystod gallu/graddau. Mae'r sefyllfa yng Ngwynedd yn cyfateb yn fras i'r hyn welir ar draws holl awdurdodau'r Gogledd.

Mae arfarniadau a gynhaliwyd, sy'n cynnwys canlyniadau trafodaethau cenedlaethol, yn awgrymu mai agweddau o asesu [dehongli a chymhwyso cynlluniau marcio yn benodol] sydd yn bennaf gyfrifol am yr amryfusedd, yn hytrach nag unrhyw wendidau sylfaenol mewn dulliau addysgu/cyflwyno. Mae ceisio dehongli be fydd effaith hyn oll ar ganlyniadau Haf 2014 yn gwbl amhosibl ar hyn o bryd ond cafwyd gwarant gan CBAC na fydd unrhyw ddysgwr yn cael ei osod mewn sefyllfa o anfantais.


Fodd bynnag, mae effaith y canlyniadau hyn wedi bod yn sylweddol ar athrawon, disgyblion a rhieni ac wedi erydu ffydd yr holl randdeiliaid yn y gyfundrefn. Mae'r pryderon hynny wedi'u hamlygu'n gwbl glir i'r Gweinidog Addysg gan Brif Weithredwr GwE a'r chwe Prif Swyddog Addysg. Fel rhan o ymateb y Gweinidog Addysg i'r sefyllfa, hwyluswyd cyfarfod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen cenedlaethol a bu dau Bennaeth Adran Saesneg profiadol o Wynedd yn cynrychioli'r rhanbarth yn y trafodaethau hynny. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd ymweliadau i 32 o ysgolion i ganfod barnau a gwybodaeth bellach. Mae CBAC hefyd wedi cynnal eu hymchwiliad eu hunain ac yn cydweithio gyda'r Cynulliad i gynllunio nifer o gamau i sicrhau na fydd sefyllfa gyffelyb yn codi eto e.e. gwell arweiniad a

chefnogaeth i staff; adolygiad o weithdrefnau safoni a chraffu; deunyddiau enghreifftiol ehangach ar gael ayyb.

Mae GwE yn cydweithio'n agos gyda'r Cynulliad i sicrhau bod ysgolion lleol yn cael yr arweiniad a'r gynhaliaeth fwyaf effeithiol wrth gynllunio tuag at gyflwyno'r TGAU diwygiedig yn 2015. I'r perwyl hwnnw, penodwyd 'pencampwyr' pynciol yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth a bydd yr unigolion hyn yn cydgordio cefnogaeth ac arweiniad lleol trwy gyfrwng sesiynau hyfforddiant a thrwy hyrwyddo gwaith fforymau a rhwydweithiau pynciol.

**14 Secondary Schools: 10 returned, 1 no candidates, 3 not returned**

**2 Secondary Schools: 0 returned**




| | Number of candidates gaining higher than expected grade | | | Number of candidates gaining their expected grades | | | Number of candidates gaining one grade below expected grade | | | Number of candidates gaining two grades (or more) below expected grade | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Y 10 | Y 11 | Y12/13 | Y 10 | Y 11 | Y12/13 | Y 10 | Y 11 | Y12/13 | Y 10 | Y 11 | Y12/13 |
| English Language | 0 | 96 | 0 | 70 | 766 | 5 | 76 | 1474 | 4 | 238 | 1967 | 7 |
| English Literature | 138 | 106 | 0 | 328 | 336 | 0 | 174 | 244 | 0 | 61 | 79 | 0 |
| Welsh 1st Language | 0 | 23 | 0 | 0 | 419 | 4 | 0 | 112 | 0 | 0 | 12 | 0 |

| | Number of Entries | | |
|---|---|---|---|
| | Y 10 | Y 11 | Y12/13 |
| English Lang | 384 | 4045 | 16 |
| English Lit | 701 | 586 | 0 |
| Welsh 1st Lang | 0 | 566 | 4 |